

Mae YGC (Ymgyngoriaeth Gwynedd Consultancy) yn ymgyngoriaeth amlddisgyblaeth sydd yn darparu atebion arloesol a chynaliadwy sydd yn ateb anghenion cynllunio, dylunio a gweithredu prosiectau sectorau isadeiledd a thrafnidiaeth, eiddo ac adeiladu, amgylchedd a dŵr ac arfordirol. Yn gweithio fel endid masnachol o fewn Cyngor Gwynedd, YGC yw'r ymgyngoriaeth llywodraeth leol fwyaf yng Nghymru yn gweithio gyda rhestr eang ac amrywiol o gleientiaid yn y sector gyhoeddus a preifat.

Mae YGC yn anelu tuag at gyrraedd y gofynion sydd wedi eu gosod gan Gyngor Gwynedd tra rhoi trigolion y sir yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Mae YGC wedi ymrwmo i fodloni holl oblygiadau cydymffurfio yn cynnwys gofynion cleientiaid a rhan-ddeiliaid.

Mae'r polisi hwn wedi ei ddylunio i atgyfnerthu a gweithredu polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Gwynedd gan weithio tuag at yr un amcanion cyffredin, drwy ddarparu:

- **Mannau gwaith diogel, mynediad ac allanfa diogel a chyfleusterau lles digonol ymhob gweithle.**
- **Adnoddau digonol ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch.**
- **Offer, peiriannau a systemau gwaith diogel.**
- **Gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a mynediad i gyngor iechyd a diogelwch cymwys.**
- **Asesiadau addas a digonol o'r risgiau i iechyd a diogelwch yr holl randdeiliad sy'n deillio o weithgareddau gwaith neu mewn cysylltiad â hwy.**
- **Trefniadau ar gyfer cynllunio, trefnu, rheoli, monitro ac adolygu effeithiol o fesurau ataliol.**
- **Systemau ar gyfer sicrhau bod contractwyr a chyflenwyr cymwys**
- **Ymgyngoriad ar y cyd effeithiol ar iechyd a diogelwch gydag undebau llafur a chynrychiolwyr cyflogedig.**
- **Systemau ar gyfer adrodd, cofnodi ac ymchwilio i ddamweiniau, digwyddiadau, methiannau agos a salwch galwedigaethol.**
- **Mynediad at gyfleusterau iechyd galwedigaethol gan gynnwys gwasanaeth cynghori staff i gynorthwyo i gynnal iechyd a lles gweithwyr.**
- **Trefniadau ar gyfer defnyddio, trin, storio a thrafnidiaeth erthyglau a sylweddau yn ddiogel.**

Er bod perfformiad YGC o ran iechyd a diogelwch wedi bod yn hynod hyd yn hyn, nid yw'n golygu na ellir gwella'r risgiau. Mae YGC wedi ymrwmo i welliant parhaus a bydd, ar ôl ymgyngori â staff ac Uwch Reolwyr, yn datblygu amcanion a rhaglenni gwella.

Mae'r Polisi hwn wedi'i ddylunio i gwrdd â gofynion System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol BS OHSAS 18001: 2007 sy'n sicrhau bod yr Uwch Reolwyr yn adolygu a diwygio'r polisi hwn fel rhan o adolygiad blynyddol o berfformiad iechyd a diogelwch YGC.

Mae YGC yn cydnabod bod gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus yn gofyn am ymrwymiad llwyr gan Reolwyr a'r holl staff ym mhob gwasanaeth ac ym mhob lleoliad. Mae gan bawb rwymedigaeth gyfreithiol i fod yn bersonol gyfrifol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, yn ogystal ag ar gyfer iechyd a diogelwch eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt. Gellir cyflawni nodau'r polisi hwn gyda chydweithrediad, ymgyngori a chyfranogiad gweithredol yr holl randdeiliaid.

**Huw Williams**  
*Pennaeth YGC*

10/06/2019